



Cytundeb Gwersi sy'n cael eu Ffrydio'n Fyw Ysgol I D Hooson



Arwyddwch y cytundeb a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda

Os oes angen i ddosbarth hunan ynysu neu fod angen i'r ysgol gau am gyfnod; rydym am sefydlu gwersi byw i'r disgyblion drwy gyfrwng Google Classrooms neu Microsoft Teams. Er mwyn i'ch plentyn dderbyn gwahoddiad i'r gwersi ffrydio byw, mae angen i'ch plentyn ac i chi ddarllen ac arwyddo'r cytundeb isod i ddangos eich bod yn deall ac yn derbyn y telerau. Bydd y gwersi yn cael eu cynnal ar Ap Microsoft Teams neu drwy Google classrooms drwy gyfrif Hwb eich plentyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch gyda'r ysgol.

Darllenwch ac arwyddwch y canlynol:

Rwyf yn cytuno i:

- fod yn brydlon ar gyfer pob gwern a mewngofnodi i'r sesiwn cyn yr amser dechrau
- sicrhau fy mod gydag unrhyw adnoddau rwyf ei hangen yn barod ar ddechrau'r wers
- sicrhau bod cyflenwad pŵer a glieniaduron/ipads/offer yn barod cyn i'r wers ddechrau
- dangos parch i bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Mae rheolau'r dosbarth/ysgol yn dal i fodoli. Byddaf yn defnyddio iaith addas fel buaswn i yn ei wneud yn yr ysgol
- gwisgo'n briodol ar gyfer pob gwern gan feddwl am barch at eraill
- sicrhau bod y lleoliad yn briodol, (er enghraifft - defnyddio cegin, ystafell fyw neu swyddfa). Ystyried cefndir ac ongl camera
- cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol â pheidio ag aflonyddu ar eraill
- peidio â rhannu delweddau o'r dosbarth
- siarad yn Gymraeg, oni bai ei bod hi'n wers Saesneg
- cymryd tro i siarad, ac os oes angen, tawelu meic os oes sŵn cefndirol.

Enw'r plentyn _____ Dosbarth _____

Llofnod (Plentyn) _____

Llofnod (Rhiant) _____

Dyddiad _____

Annwyl Rhieni,

Os oes angen i ddosbarth hunan ynysu neu fod angen i'r ysgol gau am gyfnod, rydym am geisio sefydlu gwersi byw ar Microsoft Teams neu Google classrooms ar gyfer y disgyblion. Er mwyn i'ch plentyn gael gwahoddiad i'r gwersi, mae angen iddyn nhw a chi ddarllen ac arwyddo'r cytundeb i ddangos eich bod yn deall ac yn derbyn y telerau ac yn ei ddychwelwyd i'r ysgol. Os nad ydych yn arwyddo a dychwelyd y ffurflen, ni fyddwn yn gallu gwahodd eich plentyn i'r gwersi byw.

Yn y sefyllfa ble mae'r gwersi ffrydio byw yn gorfod digwydd, bydd amserlen yn cael ei rannu gyda chi ar gyfer y gwersi byw gartref. Bydd y gwersi yn cael eu cynnal ar Ap Microsoft Teams neu Google classrooms drwy gyfrif Hwb eich plentyn. Byddwn yn addysgu a hyfforddi'r plant yn yr ysgol ar sut i fynychu'r gwersi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch gyda'r ysgol

Cadwch y llythyr yma yn saff os gwelwch yn dda fel eich bod yn gallu ail gyfeirio at y rheolau.

Rheolau Gwersi Ffrydio Byw

- Cyrraedd yn brydlon ar gyfer pob gwर्स
- Sicrhau bod eich adnoddau yn barod ar ddechrau'r wers
- Sicrhau bod addaswyr pŵer a glieniaduron/ ipads/ offer yn barod cyn i'r wers ddechrau
- Mewngofnodi i'r sesiwn ar amser
- Dangos parch i bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Mae rheolau'r dosbarth/ysgol dal yn bodoli
- Defnyddio iaith addas
- Gwisgo'n briodol ar gyfer pob gwर्स
- Sicrhau bod lleoliad y camera yn briodol
- Cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol â pheidio ag aflonyddu ar eraill
- Peidio â rhannu delweddau o'r dosbarth
- Siarad yn Gymraeg, oni bai ei bod hi'n wers Saesneg
- Cymryd tro i siarad, ac os oes angen, tawelu meic os oes sŵn cefndirol